

Cyngor Cymuned Llanystumdwy.

Rhaglen waith y Cyngor – nos lau, Ionawr 26ain, 2017 yn brydlon am 7-00 y.h.

yn Ystafell Myrddin, **NEUADD GOFFA CHWILOG**

1. Ymddiheuriadau.
2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar Ionawr 5ed, 2017 a chyfarfod y Pwyllgor Cynllun Busnes gyfarfu nos lau Ionawr 19eg, 2017 yn Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog
3. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen.
4. Datgan buddiant personol.
5. Cyngor Gwynedd.
 1. Gwasanaeth Cynllunio, Cytundebau 106.
 2. Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, Gwasanaeth Democrataidd, Swyddog Cefnogi Aelodau; Ymchwiliad Trefn Cynllunio Cyngor Gwynedd.
 3. Gwasanaeth Cynllunio, Swyddog Gorfodaeth Cynllunio; Adwy gyferbyn â cheg lôn Tyddyn Gwyn ar y ffordd rhwng Llanystumdwy a Rhoslan.
 4. Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol); Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau.
6. Cyngor Gwynedd – Cais Cynllunio yn y gymuned.
 1. Cais Rhif C17/0003/41/LL – Cais i godi adeilad gardd; Llwyn Gwyn, Llanybi.

7. Materion yn y gymuned.

Llanarmon

Rhoslan

Tynnu eich sylw at yr arwyddion newydd sydd wedi eu gosod ym mynedfa parc carafanau Tyddyn Morthwyl. Wedi sylwi arnynt ers tro ac mae ambell aelod o'r cyhoedd wedi lleisio'u barn arnynt hefyd. Mae dau arwydd wedi eu gosod - un bob ochor i'r fynedfa. Maent yn fawr iawn o ran maint ac yn uniaith Saesneg.

Teimlad eu bod yn edrych yn hollol allan o le yng nghefn gwlad Eifionydd ac mi fuasai yn ddiddorol clywed barn eraill amdanynt.

Oes angen caniatad cynllunio i osod arwyddion o'r math yma?

Oes yna reol pa mor fawr y caniateir i arwyddion fod?

Oni ddylai arwyddion yn yr ardal yma fod yn ddwyieithog?

Teimlad hefyd os yw un parc carafanau yn cael gosod arwyddion mawr Saesneg fel hyn, yna bydd llawer mwy o lefydd yn disgwyl cael yr un fath.

Chwilog

Pencaenewydd/Sardis

Llanybi

Llanystumdwy

Materion Ariannol

8. Derbyn ad daliad o £612.50c, arian llwybrau gan Gyngor Gwynedd, taliad BACS.
9. Adroddiad ariannol ar lafar.
10. Anfonebau angen eu talu:
 - a. Neuadd Llanystumdwy, £30-, defnydd o'r Neuadd i dri chyfarfod o'r Cyngor, taliad BACS.
 - b. Mr Gareth Jones, Caeathro, am gadw safle bedd D Lloyd George yn daclus, tymor 2016, £250-, taliad BACS.

11. Ceisiadau am gymorth ariannol

1. Eisteddfod Gadeiriol Chwilog.
2. Mynwent Capel Helyg.
3. Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn 2017.
4. Dawns i Bawb.
5. Cymdeithas Parêd Dewi Sant, Pwllheli.
6. Shelter Cymru.
7. Mynwent Newydd Llanystumdwy.
8. Pwyllgor Mynwent Tai Duon.

Mae rhain i gyd wedi cyflwyno cais drwy lythyr a mantolen ariannol.

Y canlynol wedi cyflwyno cais ond heb gyflwyno mantolen ariannol er gofyn am un.

1. Cylch Meithrin Chwilog.
2. Côr Eifionydd.
3. Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru.
4. Marie Curie.
5. Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen.
6. Macmillan Cancer Support.

It is possible to get a translation, contact the Clerk.